Adroddiad ar gyfer

# Busy Bees St David's Park Day Nursery

Busy Bees St David's Park Day Nursery
Parc Dewi Sant
Ewlô
Sir y Fflint
CH5 3XN

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn a Busy Bees St David's Park Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Busy Bees St David's Park Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Busy Bees Nurseries Limited |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Cheryl Creaser, Christopher McCandless |
| Person â chyfrifoldeb | Barbara Karda |
| Nifer y lleoedd | 129 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 67 o blant |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 35 o blant |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 7:30 a.m. – 6:00 pm o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14/03/2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 17/06/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn herio'r plant ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd mwy cyson drwy gynnig cydbwysedd o weithgareddau dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau dan arweiniad y plentyn

A2 Mireinio'r prosesau gwella er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n well ar nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth dysgu ac addysgu a mynd i'r afael â nhw

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r ymarferwyr ac yn mynd atynt am fwythau a thawelwch meddwl pan fydd eu hangen arnynt, gan wybod y bydd y rhain yn cael eu rhoi heb gwestiwn. Caiff dewisiadau unigol y plant eu parchu a'u blaenoriaethu dros unrhyw drefn ddyddiol. Er enghraifft, mae'r plant yn cysgu pryd bynnag y byddant wedi blino ac nid ar amseroedd cysgu penodedig ac mae'r babanod yn yfed eu llaeth pryd bynnag y byddant eisiau bwyd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfathrebu'n hyderus â'r ymarferwyr, gan wybod y caiff eu safbwyntiau eu parchu. Er enghraifft, mae'r plant yn mynegi sut maent yn teimlo yn ystod amser cylch ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn eu cefnogi ac yn rhoi sicrwydd iddynt os byddant yn dweud eu bod yn teimlo'n drist. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus i fynd at ymwelwyr i drafod yr hyn maent yn ei wneud a dangos eu hoff deganau iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i rannu eu cyflawniadau ac i gynnwys yr ymarferwyr yn eu chwarae gan eu bod yn gwybod y byddant yn ymateb yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn datblygu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol yn effeithiol, fel sgiliau cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu'r cylchgronau ac yn cymryd eu tro i ddefnyddio'r sisyrnau a'r glud wrth greu cludweithiau o fasgedi picnic. Mae'r plant iau yn cydweithio i greu tŵr gan ddefnyddio ciwbiau chwarae meddal, gan gymryd eu tro i osod y ciwbiau ar y tŵr a bloeddio gyda'i gilydd wrth iddo ddisgyn.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn ymgymryd â thasgau yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau archwilio'r mwd yn ystod chwarae blêr, gan ddefnyddio'r sgwpiau i greu cacennau mwd a chwilio am ‘drysor’ sy'n cuddio y tu mewn. Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio'n dda ac yn fanwl i gyflawni'r hyn y maent am ei wneud. Er enghraifft, wrth baratoi ‘picnic tedi’ mae'r plant hŷn yn dyfalbarhau'n dda wrth ddefnyddio'r cyllyll diogelwch i dorri llysiau caletach ac yn dangos ymdeimlad mawr o falchder wrth lwyddo i'w torri. Mae'r plant iau yn canolbwyntio'n dda wrth ddefnyddio'r sgwpiau i lenwi'r cwpanau yn yr hambwrdd tywod a defnyddio'r sbyngau i roi bath i'r doliau. Gellir clywed llawer o chwerthin, bloeddio a sgwrsio hapus yn ystod y gweithgareddau wrth i'r plant ddangos yn gyffrous i'r staff a'u ffrindiau beth roeddent yn ei wneud.

Caiff pob plentyn ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Mae'r plant hŷn yn cwblhau tasgau hunanofal fel sychu trwyn a golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r babanod yn ymarfer bwydo eu hunain yn ystod amser cinio a byrbryd, a rhoddir digon o amser a lle iddynt wneud hynny'n annibynnol. Mae bron pob un o'r plant yn barod i helpu i dacluso ar

ddiwedd gweithgareddau. Mae pob un o'r plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae ac yn dewis adnoddau fel y dymunant, gan fod yr holl deganau a'r gweithgareddau wedi'u gosod o fewn eu cyrraedd.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae nifer o'r plant yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn chwarae ac yn archwilio gyda chwilfrydedd a hyder. Maent yn gwneud dewisiadau am eu chwarae yn annibynnol ac yn defnyddio adnoddau yn greadigol i ddilyn eu diddordebau, er enghraifft defnyddio taflen hysbysebu fel map trysor.

Mae llawer o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae creadigol, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a deunyddiau. Maent yn mwynhau mynegi eu syniadau drwy baentio a chwarae rôl. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser, yn enwedig yn ystod gweithgareddau yn yr awyr agored. Yn ystod eu gweithgareddau chwarae, ni fydd rhai plant bob amser yn gweithio dda nac yn rhannu ag eraill yn gadarnhaol.

Mae nifer o'r plant yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu'n hyderus. Maent yn mynegi eu hunain yn glir, er enghraifft wrth esbonio teimlad ac arogl toes ag arogl sinamon wrth iddynt ei wasgu drwy eu bysedd. Mae nifer ohonynt yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau syml, er enghraifft yn ystod amser byrbryd.

Mae nifer o'r plant yn gwneud cynnydd defnyddiol wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg cynnar. Maent yn mwynhau ymuno wrth ganu caneuon Cymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp bach. Maent yn deall amrywiaeth o ymadroddion Cymraeg cyffredin ac yn ymateb iddynt, ac yn defnyddio geirfa sylfaenol yn hyderus, fel 'bore da' a chyfri i dri. Mae rhai plant yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, er enghraifft wrth ganu 'pen-blwydd hapus' i eraill yn Gymraeg, heb gael eu cymell.

Mae nifer o'r plant yn mwynhau gwrando ar straeon, a thrin llyfrau a thaflenni. Maent yn trin llyfrau â gofal ac yn ymateb yn gadarnhaol i straeon cyfarwydd. Mae rhai o'r plant yn siarad yn frwdfrydig am gymeriadau a phrif ddigwyddiadau mewn straeon y maent wedi'u clywed.

Mae nifer o'r plant yn dangos hyder cynyddol wrth wneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau dan do ac yn yr awyr agored. Mae rhai yn deall y gall ysgrifen gynrychioli eu henwau ac yn dechrau deall bod ysgrifen yn ffordd o gyfathrebu, er enghraifft wrth geisio ysgrifennu eu henwau ar eu lluniau.

Mae cynnydd mathemategol y mwyafrif o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn dechrau adnabod siapiau yn yr amgylchedd ac yn defnyddio iaith fathemategol wrth chwarae, er

enghraifft wrth gymharu maint y tyrau maent wedi'u hadeiladu o flociau. Mae nifer yn cyfrif yn gynyddol hyderus ac yn ymuno â'r oedolion wrth iddynt gyfrif yn uchel. Mae rhai o'r plant yn cyfrif gwrthrychau'n ddibynadwy, er enghraifft wrth chwarae gyda chylchoedd pren yn yr ardal adeiladu.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn effeithiol. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad, fel cydbwyso ar waliau ac wrth geisio cadw wyau ar lwyau. Mae nifer yn trin adnoddau ac offer â rheolaeth gynyddol, gan gynnwys brwshys, a rholbrennau. Maent yn mwynhau heriau corfforol ac yn dangos dyfalbarhad, er enghraifft wrth godi estyll pren i greu llethr.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin eu sgiliau digidol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o dechnoleg i gefnogi eu chwarae, fel defnyddio camerâu i dynnu lluniau o'u ffrindiau a'u gweithgareddau chwarae. Mae nifer o'r plant yn dechrau archwilio dyfeisiau rhaglen ac yn deall bod y botymau rheoli yn gwneud i'r ddyfais symud mewn ffyrdd gwahanol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn hyderus o ran eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r plant. Mae'r holl ymarferwyr yn hyderus o ran y camau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn ac maent wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu perthnasol. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig diweddaraf. Caiff unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a chaiff y cofnodion hyn eu rhannu â'r rhieni. Mae'r ymarferwyr yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant drwy amrywiaeth o weithgareddau lle maent yn ymarfer eu sgiliau dringo, cydbwyso a chymryd risgiau priodol. Caiff hylendid da ei hyrwyddo. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog pob plentyn i olchi ei ddwylo pan fo angen ac yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn effeithiol i atal y risg o groesheintio. Mae gweithdrefnau effeithiol iawn ar waith i baratoi bwyd addas i'r plant ag alergeddau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant â chynhesrwydd a hoffter. Maent yn rhoi cysur a thawelwch meddwl pan fydd eu hangen ar y plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn dangos sgiliau cymdeithasol cadarnhaol drwy gydol y dydd wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn canmol y plant am rannu ac am fod yn garedig at ei gilydd yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio technegau tynnu sylw i sicrhau bod y plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau'n gadarnhaol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir wrth esbonio i'r plant pan nad yw eu hymddygiad yn briodol. Er enghraifft, pan fydd y plant yn

cecru dros deganau, maent yn eu helpu'n dawel i rannu ac yn esbonio pwysigrwydd ymddygiad caredig yn glir.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol. Maent yn casglu manylion cynhwysfawr am ddewisiadau ac anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad a defnyddir y manylion hyn i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y gweithgareddau'n amrywiol, gyda chymysgedd da o weithgareddau dan do a gweithgareddau awyr agored sy'n annog y plant i archwilio ac i ddangos chwilfrydedd. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydnabod pan fydd angen cymorth ychwanegol ar y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol â'r rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plentyn. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd drwy raglen ar-lein ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am drefn o ddydd i ddydd y plant yn ogystal â ffotograffau a gwybodaeth am gyflawniadau'r plant a'u camau dysgu nesaf.

### Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae pob ymarferydd yn gweithio gyda'r plant mewn ffordd gefnogol. Maent yn rhoi pwyslais mawr ar greu amgylchedd cynhwysol a gofalgar lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi ar eu taith dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ymateb i anghenion y plant mewn ffordd sensitif. Maent yn annog creadigrwydd y plant wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn helpu'r plant i feddwl am ddatrysiadau wrth iddynt wynebu heriau yn ystod gweithgareddau adeiladu. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gefnogol ac yn dangos ymddygiadau fel cymryd eu tro a rhannu.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth addas o ddatblygiad plant a phwysigrwydd dysgu drwy chwarae ac archwilio i'r plant. O ganlyniad, maent yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol sy'n adlewyrchu diddordebau'r plant ac yn hyrwyddo eu hymgysylltiad cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ymarferwyr bob amser yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng ymyrryd yn chwarae'r plant mewn modd amserol a chaniatáu iddynt archwilio yn fwy annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd amrywiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol cynnar. Er enghraifft, mae'r plant yn archwilio cysyniadau mathemategol, fel meintiau, drwy chwarae yn yr awyr agored ac ymchwilio i'r ffyrdd y gellir defnyddio gwahanol ddyfeisiau digidol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn annog datblygiad corfforol a chreadigol y plant, dan do ac yn yr awyr agored, er enghraifft drwy annog y plant i redeg a neidio mewn ffyrdd gwahanol fel anifeiliaid.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ystyriol wrth iddynt chwarae. Maent yn aml yn nodi pan fydd y plant yn cyflawni nod ac yn ystyried y gweithgareddau sydd o ddiddordeb i wahanol blant yn dda. Mae hyn yn helpu i ddarparu adnoddau a gweithgareddau priodol sy'n galluogi'r plant i ddilyn eu chwilfrydedd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn sy'n cefnogi ac yn herio'r plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn drefnus iawn er mwyn hyrwyddo dewis ymhlith y plant a'u hannog i archwilio. Mae nifer ohonynt yn sicrhau bod y plant yn cael cyfnodau estynedig i chwarae heb i unrhyw un darfu arnynt. Maent yn fodelau rôl effeithiol ac yn cyflwyno geirfa newydd pan fo'r plant yn chwarae.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg, a diwylliant Cymru yn effeithiol. Maent yn cynnwys ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn y gweithgareddau a'r drefn o ddydd i ddydd ac yn helpu'r plant i ddysgu am ddigwyddiadau diwylliannol, fel hanes Santes Dwynwen. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn hyderus.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais addas ar ddatblygu dealltwriaeth gymdeithasol, ysbrydol, diwylliannol a morâl y plant. Er enghraifft, maent yn cyflwyno'r plant i amrywiaeth o wyliau a thraddodiadau pwysig o bob cwr o'r byd. Maent yn defnyddio profiadau bywyd go iawn, fel ymweliadau â'r orsaf dân ac yn defnyddio offer casglu sbwriel i helpu'r plant i ddysgu am eu cymuned a phwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd.

### Yr Amgylchedd:  Da

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn rhoi systemau effeithiol ar waith i reoli, monitro a lleihau unrhyw beryglon posibl. Caiff gwiriadau diogelwch eu cynnal yn ddyddiol i sicrhau nad yw'r ardaloedd a'r adnoddau yn peri unrhyw risgiau posibl. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn, a chaiff unrhyw gamau lliniaru gofynnol eu nodi ac ymdrinnir â nhw yn brydlon. Caiff asesiadau risg cynhwysfawr eu rhoi ar waith ar gyfer y safle ac unrhyw deithiau, sy'n nodi unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerir i ddileu neu leihau'r risg i'r plant. Caiff yr asesiadau risg hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel pe bai angen gwneud hynny, drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Caiff yr ymarferion tân hyn eu dogfennu'n dda, gydag unrhyw gamau sydd angen eu cymryd yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith yn gyflym.

Mae pob ardal chwarae yn gyfforddus ac yn groesawgar ac yn cynnig digon o le i alluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ymdeimlad

o berthyn drwy arddangos ffotograffau ac enghreifftiau o waith y plant ar yr hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n ardaloedd dysgu gwahanol, gydag amrywiaeth dda o adnoddau naturiol, darnau rhydd ac eitemau bywyd go iawn dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae amrywiaeth o flociau pren, caniau tin a botymau ar gael ym mhob un o'r ystafelloedd chwarae i annog y plant i ddefnyddio eu sgiliau creadigol a'u dychymyg. Mae'r arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio lliwiau ac addurniadau naturiol ac ymlaciol ym mhob rhan o'r lleoliad, gan ddarparu amgylchedd tawel a chartrefol nad yw'n or-ysgogol i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol a chyffrous i'r plant sy'n eu helpu i ddatblygu eu gwybodaeth am y byd o'u cwmpas a'u dealltwriaeth ohono. Mae ceginau mwd ac ardaloedd chwarae tywod a dŵr ar gael ar gyfer pob grŵp oedran, yn ogystal â chyfleoedd i archwilio amrywiaeth eang o eitemau wedi'u hailgylchu, ac eitemau naturiol fel cregyn, moch coed a cherrig mân. Mae hyn yn annog y plant i archwilio, arbrofi a defnyddio eu synhwyrau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r ystafelloedd chwarae yn cynnwys dodrefn a chyfarpar addas i helpu annibyniaeth y plant, fel sinciau, toiledau, byrddau a chadeiriau lefel isel yn ogystal â seddi toiled a photiau ar gyfer y plant iau. Hefyd, mae amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sy'n hyrwyddo nodweddion amlddiwylliannol ac amrywiaeth, sy'n helpu'r plant i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae'r holl adnoddau o ansawdd da ac yn briodol ar gyfer oedrannau'r plant ym mhob ystafell a chânt eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant gael gafael arnynt yn annibynnol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu amgylchedd magwrus o ansawdd uchel lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn hyrwyddo amgylchedd cynnes a gofalgar ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio i gefnogi llesiant a datblygiad y plant yn dda. Mae gan y tîm arwain weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei chyfleu'n effeithiol i'r staff a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac maent yn hyderus i fynd at yr arweinwyr i rannu eu syniadau a'u pryderon.

Mae gan y feithrinfa ddatganiad o ddiben clir sy'n adlewyrchu ei nodau a'r ddarpariaeth yn gywir. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn arwain yr ymarferwyr wrth eu gwaith o ddydd i ddydd. Maent yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r lleoliad er mwyn gwneud gwelliannau ystyrlon, gan sicrhau bod ardaloedd rhydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynnig profiadau ysgogol i'r plant.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi prosesau hunanwerthuso addas ar waith sy'n eu helpu i nodi meysydd i'w gwella'n briodol. Maent yn cynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio â'r ymarferwyr yn rheolaidd. Mae'r rhain yn annog yr ymarferwyr i fyfyrio ar eu gwaith ac

ystyried eu datblygiad proffesiynol. Mae'r arweinwyr yn cefnogi dyheadau'r staff yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar nodi cryfderau a gwendidau'r addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn nodi meysydd gwaith yr ymarferwyr yn ddigon clir er mwyn eu gwella.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent am eu datblygu yn ystyrlon. Mae'r gwaith hwn yn aml yn gwella'r ddarpariaeth a'r ymarfer yn effeithiol. Er enghraifft, mae eu gwaith i wella'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob rhan o'r lleoliad wedi sicrhau bod nifer o'r plant yn defnyddio'r iaith yn hyderus.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r cyllid sydd ar gael i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth fuddsoddi mewn cyfarpar chwarae awyr agored ac adnoddau dysgu seiliedig ar natur, sydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ymgysylltiad y plant a'u llesiant.

Mae'r arweinwyr yn cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr mewn ffordd fuddiol. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael hyfforddiant perthnasol sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o ofal a llesiant plant. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r arweinwyr, na'r ymarferwyr ag ymrwymiadau addysgu, yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cryf o'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yng Nghymru.

Caiff cydberthnasau cryf eu cynnal rhwng y lleoliad a'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r arweinwyr yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r rhieni ar ddatblygiad eu plant. Maent yn defnyddio eu llwyfan digidol mewn ffordd fuddiol i roi diweddariadau rheolaidd i'r rhieni ar weithgareddau'r plant. Mae'r arweinwyr yn ymateb yn dda i gwestiynau ac ymholiadau gan y rhieni, ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod y plant yn setlo'n dda, a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn meithrin ac yn cynnal partneriaethau gwerth chweil ag asiantaethau allanol. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag athrawon cynghori a gweithwyr iechyd proffesiynol i ofyn am arweiniad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda, ac yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r partneriaethau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r lleoliad i ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra at blant unigol. Mae'r arweinwyr yn cynnal cysylltiadau defnyddiol â'r ysgolion lleol. Maent yn cymryd gofal mawr drwy gefnogi'r plant mewn ffordd sensitif wrth iddynt baratoi i symud i'r ysgol ac yn rhannu gwybodaeth â'r ysgolion hyn mewn ffordd ddefnyddiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi:  19/08/2025